Rhan 2 – Papur Adfyfyriol

Mae'r ddarpariaeth o safon yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig ar gyfer datblygiad effeithiol plant (Sylva *et al*. 2004a a Siraj-Blatchford *et al*. 2002). Cytuna Llywodraeth Cymru (2015) a Hoa, Campbell-Barr a Leeson (2010) gall addysg o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar wneud cyfraniad mawr at ddysgu a datblygiad plant. Yn yr un modd dywed Department for children, schools and families (2008) bod ansawdd yn allweddol i sicrhau canlyniadau gwell i blant a rhoi cychwyn gwell iddynt yn y blynyddoedd cynnar. Mynna Kelly (2016) bod lleoliadau o ansawdd uchel yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial llawn ac maent yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant (Robb, dim dyddiad a Foundation Years, dim dyddiad). Yn debyg dywed Llywodraeth Cymru (2014) a Britto *et al*. (2017) gall darpariaeth o ansawdd uchel mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar cael effaith gadarnhaol a pharhaus ar ddeilliannau plentyn, fel iaith, cyfathrebu a chyrhaeddiad gwybyddol. Cytuna Tayler (2015) a hyn wrth nodi mae perthnasoedd a rhyngweithiadau athro-plentyn o ansawdd uchel yn gysylltiedig â gwell sgiliau iaith. Caiff yr uchod ei gefnogi gan ganlyniadau'r prosiect EPPE, dangosodd bod addysg o safon yn gwella datblygiad cymdeithasol a deallusol plant (Sylva *et al.* 2004b) a'i fod yn hanfodol ar gyfer canlyniadau da i blant (Bland, dim dyddiad). Mae ansawdd addysg gynnar a gofal yn bwysig, nid yn unig oherwydd ei fod yn effeithio ar brofiadau bob dydd plant ond oherwydd bod y buddion yn cael eu gwireddu dim ond os yw'r ddarpariaeth a ddefnyddir o ansawdd uchel (Mathers, Singler a Karemaker, 2012).

Er hyn, awgryma Mathers, Singler a Karemaker (2012) bod llawer o ffyrdd o ddiffinio ansawdd yn y blynyddoedd cynnar, a llawer o ddadlau dros y cwestiwn 'beth yw ansawdd'. Fodd bynnag, cred Pascal a Bertram (2018) bod ansawdd yn gysyniad goddrychol sydd yn amrywio yn ôl persbectif a gydag amser. Ar yr un trywydd, awgryma Campbell-Barr a Leeson (2016) bod ansawdd yn arf gwleidyddol sydd yn ceisio llunio dealltwriaeth o ddiben gwasanaethau blynyddoedd cynnar a sut y dylent edrych. Er hyn, mae'n hanfodol i ymarferwyr a lleoliadau blynyddoedd cynnar ymdrechu i ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad).

Fodd bynnag, gall cyflawni ansawdd yn y blynyddoedd cynnar fod yn heriol, cefnogir hyn gan Cottle a Alexander (2012) a Mathers, Singler a Karemaker (2012) a dywed o ganlyniad i amryw o rhanddeiliaid fel rhieni, ymarferwyr, plant a llunwyr polisïau mae safbwyntiau arfer o safon yn oddrychol. Adeilada Bonetti a Brown (2018) ar hyn drwy nodi gallai rhanddeiliaid gwahanol ddefnyddio diffiniad gwahanol o'r elfennau sy'n cyfrannu at ddarpariaeth o ansawdd uchel. Er enghraifft dangoswyd ymchwil Bamezor *et al*. (2021) bod athrawon yn mesur ansawdd yn ôl datblygiad, yn wahanol mae ymchwil Howard *et al*. (2018) yn nodi bod rhieni yn mesur ansawdd yn ôl hapusrwydd y plentyn.

Ymhellach nodwyd Cottle a Alexander (2012) roedd diffiniadau o ansawdd yn amrywio yn ôl lleoliad a phrofiadau ymarferwyr ac nad oeddent yn fanwl gywir. Awgryma Cottle a Alexander (2012) bod rhai ymarferwyr yn ystyried adroddiadau arolygu statudol fel nod ar gyfer ansawdd tra bod rhai yn canolbwyntio ar anghenion unigol plant fel cydnabyddiaeth o arfer o safon. Yn debyg, hawlia Ishimine (2011) bod dau fath o ansawdd sef strwythurol a phroses. Cred OECD (2018a) bod ansawdd strwythurol yn ymwneud â nodweddion gellir mesur megis amgylchedd ffisegol, cymarebau a pholisiau. Tra bod ansawdd proses yn cyfeirio at agweddau megis rhyngweithio rhwng y plant a'r staff a chyfathrebu clir, yn ogystal â rhyngweithio cadarnhaol â chyfoedion (OECD, 2018b). Mynna Anders (2015) a Peterson a Elam (2021) y gall ansawdd proses effeithio'n uniongyrchol ar ddysgu a datblygiad plant, fodd bynnag mae ansawdd strwythurol yn dylanwadu'n anuniongyrchol.

Yn debyg mynna Cascio (2015) bod yn rhaid i ofal fod o ansawdd uchel er mwyn cael effeithiau buddiol. Fodd bynnag, awgryma Blanden, Hansen a McNally (2017) nid yw lleoliadau a gofal o ansawdd uchel o reidrwydd yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad plant yn yr hir dymor. Dadleua Sammos *et al.* (2017) bod nifer o ffactorau a dylanwadau gwahanol yn cyfrannu at ddarpariaeth o ansawdd mewn lleoliadau. Awgryma PACEY (dim dyddiad) mae modd mesur ansawdd trwy arolygiadau, cymwysterau a chysylltiadau cryf neu trwy ddulliau megis ECERS neu CLASS (Maldonado-Carreno *et al.* 2022). Fodd bynnag, dadleua Nutbrown (2012) er bod cymwysterau yn bwysig o ran cyfrannu at ddarpariaeth effeithiol o ansawdd a chanlyniadau plant maent yn mesur strwythurol. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru (2014) yn mesur ansawdd trwy gyfuniad o amgylchedd o

ansawdd uchel, ochr yn ochr ag ansawdd uchel o ymarferwyr er mwyn creu profiadau o ansawdd uchel i blant, sydd yn cyd-fynd a chanlyniadau'r prosiect EPPE (Sylva *et al*. 2003) trwy arsylwadau ac arolygiadau gan AGC (2018). Er hyn, hawlia Melhuish a Gardiner (2017) a Chen a Wolf (2021) bod mesur ansawdd yn gallu fod yn anodd.

Bwriad y papur yma fydd i ddadansoddi dau ddull sicrhau ansawdd a ddefnyddir i hyrwyddo ansawdd uwchlaw gofynion statudol.

Mae'r 'Early Childhood Environment Rating Scale' (ECERS) yn set o offer safonol ar gyfer mesur a gwella ansawdd darpariaeth y blynyddoedd cynnar (Ecersuk, dim dyddiad). Mynna ChildCare Aware (dim dyddiad) ei fod yn adnodd cyffredin a ddefnyddir mewn lleoliadau gofal ac addysg gynnar i weld pa mor dda y mae rhaglen yn diwallu anghenion plant. Mae ECERS wedi cael ei arwain gan ganfyddiadau ymchwil EPPSE sy'n dangos cydberthynas gref rhwng darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd a chanlyniadau cadarnhaol hirdymor i blant (Ecersuk, dim dyddiad). Mae'r raddfa wedi'i defnyddio'n rhyngwladol ac mae'n arf a ddefnyddir yn eang i asesu ansawdd o fewn lleoliadau (Brunsek *et al*. 2017 a Early *et al.* 2017). Y bwriad yw asesu ansawdd gan ymgorffori agweddau strwythurol a phroses sy'n priodoli i leoliadau blynyddoedd cynnar (Brunsek *et al.* 2017).

Yn debyg, awgryma MacRae a Jones (2023) bod y raddfa leuven yn fframwaith poblogaidd sy'n arddangos y graddau dangosir plant eu bod yn cymryd rhan mewn lleoliadau addysg gynnar. Ychwanega Woods (2016) bod ei defnydd yn y DU wedi cynyddu fel dull o werthuso ansawdd. Mynna Emotionally healthy schools (2019) mae'r raddfa'n seiliedig ar y syniad gellir defnyddio lefelau uwch o gyfranogiad er mwyn mesur darpariaeth o ansawdd. Dywed Lewis (2020) a Structural learning (dim dyddiad) bod y raddfa yn canolbwyntio ar ddau ddangosydd canolog wrth gynllunio unrhyw leoliad addysgol: 'Lles' a 'Chynnwys'. Cred Laevers, bod lefelau uwch o les a chyfranogiad yn galluogi plant i gael profiad o ddysgu dwfn. Mae plentyn hapus, ymglymedig yn un sy'n gallu profi'r byd ar ei eithaf. Maent wir yn dysgu o'r profiadau hynny (Arnerich, 2021).

Ar yr un trywydd, mynna NH Connections (2023) bod ECERS yn asesiad arsylwadol sy'n asesu ansawdd proses rhaglen, yn yr un modd dywed Clifford a Reszka (2010) cynlluniwyd ECERS er mwyn allu gwneud gwelliannau i ddarpariaeth o ganlyniad i

archwiliadau o’r amgylcheddau. Mynna Coventry City Council (2019) ei fod yn offeryn asesu cynhwysfawr sy'n mesur darpariaethau amgylcheddol a rhyngweithiadau a arweinir gan athrawon sy'n effeithio ar anghenion datblygiadol eang plant ifanc. Cytuna Early *et al.* (2017) wrth ddweud mae’n mesur pob maes ansawdd, gan gynnwys gofod ffisegol, grwpiau, deunyddiau, cyfarwyddyd, iechyd a diogelwch. Ychwanega Administration for Children and Families (2014) ei fod yn gweithredu fel sylfaen mesur ansawdd.

Hawlia Laevers, Moons a Declercq (2013) diffinnir llesiant ar y raddfa Leuven fel cyflwr lle mae plentyn yn cyfforddus, yn dangos natur ddigymell, yn hyderus ac yn mwynhau ei bresenoldeb a rhyngweithio ag eraill. Cytuna hyn gyda diffiniad Northumberland City Council (2017) a Laevers a Declercq (2018) a nodir bod lefelau llesiant yn dweud wrthym sut mae plant yn ffynnu ym maes datblygiad cymdeithasol-emosiynol a pha mor bell y mae eu hiechyd meddwl yn cael ei ddiogelu. Hawlia Laevers a Declrecq (2018) a Woods (2016) mae cyfranogiad yn arwydd o sut mae plant yn cael eu crynhoi, eu hamsugno a'u hudo, sut maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn gweithredu ar derfynau eu gallu.

Yn wahanol i’r raddfa Leuven mae’r raddfa ECERS yn cynnwys 35 o eitemau wedi'u trefnu'n 6 is-raddfa (ERS, dim dyddiad) a nodir Pakeys (dim dyddiad) er mwyn casglu data ar gyfer yr ECERS maent yn gwneud arsylwadau ystafell ddosbarth a chyfweliad staff. Y 6 is-raddfa yw Gofod a Dodrefn, Arferion Gofal Personol, Iaith a Llythrennedd, Gweithgareddau Dysgu, Rhyngweithio a Rhaglen yn ogystal â Strwythur (NH Connections, 2023). Hawlia Neitzel *et al.* (2019) gweinyddir yr ECERS yn gyffredinol dros gyfnod o 3 awr lle mae arsylwyr yn ymateb i gannoedd o ddangosyddion ie/na. Dadleua Clifford a Reszka (2010) bod yr ECERS yn pwysleisio materion megis plant ag anableddau, amrywiaeth diwylliannol a prydero teuluol. Dywed Bull, Yao a Ng (2017) a Brunsek *et al.* (2017) bod yr eitemau yn cael eu sgorio ar raddfa 7 pwynt ar ddangosyddion sy'n disgrifio'r arferion y mae'r arsylwr yn eu gweld yn yr ystafell ddosbarth mewn perthynas â'r eitemau. Trefnir y dangosyddion ar gyfer pob eitem ar raddfa ymateb o 1 (annigonol), 3 (lleiaf), 5 (da), i 7 (rhagorol). Fodd bynnag, mynna Learning journals (dim dyddiad) a Howard a McInnes (2012) mae’r raddfa Leuven yn raddfa 5 pwynt lle gall

ymarferwyr mesur lles emosiynol a chyfranogiad plant mewn gweithgaredd a ddewisir ei hun.

Dadleua ERS (dim dyddiad) fod yr ECERS yn ddibynadwy a dilys ac felly'n effeithiol wrth ddadansoddi ansawdd a gwelliannau, gan ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol: rhyngweithio, yr amgylchedd, goruchwyliaeth a'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nodir ymchwil Brunsek *et al*. (2017) bod offer fel y ECERS yn dueddol o ganolbwyntio ar un agwedd o fewn lleoliad sydd yn achosi asesiad cyfyngedig. Yn yr un modd, dywed Early *et al.* (2017) mae'r cysylltiadau rhwng ECERS a chanlyniadau plant naill ai'n ansylweddol neu'n fach, gan godi cwestiynau cyffredinol am offer y maes ar gyfer mesur ansawdd. Hefyd mae nifer o astudiaethau wedi nodi bod addysg athrawon uwch yn gysylltiedig â sgorau uwch ar yr ECERS (Hestenes *et al.* 2015).

Nodir Moss (2016) mae Graddfa Leuven ar yr un pryd yn cynnig ffordd i wrthsefyll cyflymiad diwylliannau addysgol o brofi sy'n ymledu i bolisïau ac arferion addysg plentyndod cynnar. Fodd bynnag, ar yr un pryd hefyd mewn perygl o ollwng i drafodaethau proffesiynol a pholisi parodrwydd ysgol (Bates, 2019). Prif fantais y Raddfa Leuven yw ei fod yn seiliedig ar arsylwadau ystyrlon, ac yn rhoi'r plant yng nghanol y dysgu (Learning journal, dim dyddiad). Cytuna Dubiel (2014) gan ddweud ei fod wedi bod yn hollbwysig er mwyn galluogi ymarferwyr i adnabod a disgrifio'r 'hanfodolion ar gyfer dysgu' a sut mae'r 'hanfodion' hyn yn amlygu eu hunain yn chwarae ac ymddygiad plentyn. Mynna Emotionally healthy schools (2019) bod y dull yn hawdd a gellir ei gymharu â 'sganio, bydd yr hyfforddwr yn cynnal arsylwad 2 funud. Aiff Learning journals (dim dyddiad) ymlaen i ddweud bydd y raddfa yn helpu i nodi maes diddordeb neu feysydd diddordeb plentyn, ac yn helpu i nodi'r adnoddau gorau. Mantais arall yn ôl Whalley (2017) yw bod rhai lleoliadau yn defnyddio'r raddfa fel arf i annog rhieni i ymgysylltu â dysgu plant sydd yn hollbwysig. Mae'n bosib cynnal yr arsylwi ar blant unigol neu grwpiau o blant (Emotionally healthy schools, 2019) a hawlia Learning journals (dim dyddiad) mae'r raddfa yn darparu ffordd unffurf, ymarferol a pherthnasol i weithwyr gofal plant proffesiynol a rhieni fesur ymgysylltiad a dysgu.

Dadleua Bull, Yao a Ng (2017) anfantais o'r dull ECERS yw ni ellir gwarantu bod yr hyn a welir ar y diwrnod hwnnw yn adlewyrchiad cwbl gywir o ansawdd yr amgylchedd hwnnw.

Problem arall yn ôl Gordon *et al*. (2013) yw nad yw sgorau'n adlewyrchu gwir ansawdd o ganlyniad i broblemau wrth drefnu'r dangosyddion. Mynna Bull, Yao a Ng (2017) bod y canfyddiadau anghyson yn cysylltu sgorau ansawdd ECERS â mesurau canlyniadau plant, mesurau ansawdd eraill, neu ffactorau ystafell ddosbarth.

Fodd bynnag, Un o'r prif feirniadaethau ar raddfa Leuven yw nad yw'n agored i blant ag ADY neu anableddau, y mwyafrif o'r amser nid yw'r ymddygiadau ar y raddfa yn amlwg neu'n bodoli mewn plant ag ADY (Learning journals, dim dyddiad).Gellir cymhwyso'r feirniadaeth hon hefyd wrth ystyried gwahaniaethau diwylliannol yn ymddygiad plant ac mae'n disgyn i lawer o'r un beirniadaethau â damcaniaeth ymlyniad John Bowlby (Atomi, 2019) – hynny yw, mae plant yn cyflwyno ymddygiadau gwahanol ar draws diwylliannau gwahanol (Learning journals, dim dyddiad).

Er bod heriau yn bodoli, profwyd bod rhaglenni sicrhau ansawdd megis graddfeydd ECERS a Leuven yn ddulliau effeithiol o wella profiadau o ansawdd a chanlyniadau cadarnhaol i blant.

Rhestr Cyfeirnodi:

Administration for Children and Families (2014) *Introduction*. Ar gael o: https://ecquality.acf.hhs.gov/crosswalk (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

AGC (2018) *Responding to Inspection Reports policy*. Ar gael o: https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-04/180403inspreportspolicyen.pdf#:~:text=2.1.%20The%20inspector%20will%20provide%20feedback%20following%20an,Individual%20or%20relevant%20person%20at%20the%20earliest%20opportunity (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Anders, Y. (2015) *Literature review on pedagogy*. Ar gael o: https://one.oecd.org/document/EDU/EDPC/ECEC(2015)7/en/pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Arnerich, M. (2021) *How To Apply The Leuven Scales In Practice*. Ar gael o: https://www.famly.co/blog/leuven-scales (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

Atomi (2019) *A Level Psychology: Bowlby's Monotropic Theory of Attachment* [fideo]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=nKMgJD-VDzc (Cyrchwyd: 1 Ebrill 2023).

Bamezor, B. et al. (2017) 'Exploring Stakeholder Perceptions of Quality Early Childhood Education in Private Day Care Centers in Ghana: A Qualitative Approach', *Education Research International,* 2021, tt. 1-10. DOI:10.1155.

Bates, A. (2019) 'Readiness for school, time and ethics in educational practice', *Studies in Philosophy and Education*, 38(4), tt. 411–426. DOI: 10.1007.

Bland, F. (dim dyddiad) *Quality practice in early years.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/quality-practice-in-early-years (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Blanden, J., Hansen, K. a McNally, S. (2017) 'Quality in Early Years Settings and Children's School Achievement, CEP Discussion Paper 1468', *The London School of Economics*, tt. 1- 47.

Bonetti, S. a Brown, K. (2018) *Structural elements of quality early years provision: A review of the evidence.* Ar gael o: https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2018/08/Early-years-structural-quality-review_EPI.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Britto, P. *et al.* (2017) 'Nurturing care: promoting early childhood development', *Advancing Early Childhood Development: From Science to Scale,* 389(10064), tt. 91-102. DOI: 10.1016.

Brunsek, A. *et al.* (2017) 'The relationship between the Early Childhood Environment Rating Scale and its revised form and child outcomes: A systematic review and meta-analysis', *PLoS ONE*, 12(6). DOI: 10.1371.

Bull, R. a Yao, S. a Ng, L. (2017) 'Assessing Quality of Kindergarten Classrooms in Singapore: Psychometric Properties of the Early Childhood Environment Rating Scale—Revised', *International Journal of Early Childhood*, 49(1), tt. 1-21. DOI: 10.1007.

Campbell-Barr, V. a Leeson, C. (2016) *Quality and Leadership in the Early Years: Research, Theory and Practice*. Sage: London.

Cascio, E. (2015) *The promises and pitfalls of universal early education*. IZA World of Labor.

Clifford, R. a Reszka, S. (2010) *Reliability and Validity of the Early Childhood Environment Rating Scale*. Ar gael o: https://ers.fpg.unc.edu/sites/ers.fpg.unc.edu/files/ReliabilityEcers.pdf (Darllenwyd:31 Mawrth 2023).

Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiad) *A Children's Rights Approach in Wales.* Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/resources/the-right-way-a-childrens-rights-approach/a-childrens-rights-approach-in-wales/ (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Cottle, M. a Alexander, E. (2012) 'Quality in Early Years Settings: Government Research and Practitioner Perspectives', *British Educational Research Journal,* 38(4), tt. 635-654.

Coventry City Council (2019) *ITERS and ECERS have been updated!* Ar gael o: https://www.coventry.gov.uk/downloads/file/30140/1_the_environmental_rating_scales_updates (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Chen, S. a Wolf, S. (2021) 'Measuring the Quality of Early Childhood Education in Low- and Middle-Income Countries', *Front Psychol*, 12. DOI: 10.3389.

Childcare Aware (dim dyddiad) *Understanding the Environment Rating Scale*. Ar gael o: file:///C:/Users/DSG/Downloads/Understanding%20the%20ERS%20Process_CCAND.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Department for Children, Schools and Families (2008) *Early Years Quality Improvement Support Programme (EYQISP).* Ar gael o: file:///C:/Users/DSG/Downloads/EY_Quality_Improvement_Support_Programme(EYQISP).pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Dubiel, J. (2014) *Measuring Up.* Ar gael o: https://www.ncn.ie/images/Measuring_Up_Nursery_world_Handout.pdf (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

Early, D. *et al.* (2017) 'Improving teacher-child interactions: A randomized controlled trial of Making the Most of Classroom Interactions and My Teaching Partner professional development models', *Early Childhood Research Quarterly*, 38, tt. 57-70. DOI: 10.1016.

EcersUk (dim dyddiad) *The Environment Rating Scales.* Ar gael o: https://www.ecersuk.org/2 (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Emotionally healthy schools (2019) *The Leuven Scale.* Ar gael o: https://emotionallyhealthyschools.org/primary/the-leuven-scale/ (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

ERS (dim dyddiad) *Early Childhood Environment Rating Scale®, Third Edition*. Ar gael o: https://ers.fpg.unc.edu/node/39 (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Foundation Years (dim dyddiad) *Quality Improvement.* Ar gael o: https://foundationyears.org.uk/pedagogy-early-learning/quality-

improvement/#:~:text=Children%20who%20experience%20high%20quality,development%20in%20the%20long%20term. (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Gordon, A. *et al.* (2013) 'An assessment of the validity of the ECERS-R with implications for measures of child care quality and relations to child development', *Developmental Psychology,* 49(1), tt. 146-160. DOI: 10.1037.

Hestenes, L. *et al.* (2015) 'Comparisons among quality measures in child care settings: Understanding the use of multiple measures in North Carolina's QRIS and their links to social-emotional development in preschool children', *Early Childhood Research Quarterly,* 30, tt. 199-214. DOI: 10.1016.

Hoa, D. a Campbell-Barr, V. a Leeson, C. (2010) 'Quality improvement in early years settings in Hong Kong and England', *International Journal of Early Years Education,* 18(3), tt. 243-258. DOI: 10.1080.

Howard, S. *et al.* (2018) 'Measuring Interactional Quality in Pre-School Settings: Introduction and Validation of The Sustained Shared Thinking and Emotional Wellbeing (SSTEW) Scale', *Early Childhood Development and Care*, tt. 1-14.

Howrad, J. a McInnes, K. (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child: care, health and development,* 39(5), tt. 737-742. DOI:10.1111.

Ishimine, K. (2011) 'Quality in early childhood education and care: a case study of disadvantage', *Australian Educational Researcher*, 38(3), tt. 257-274. DOI:10.1007.

Laevers, F. a Declercq, B. (2018) 'How well-being and involvement fit into the commitment to children's rights', *Eur J Educ,* tt. 325-335. DOI:10.1111.

Laevers, F., Moons, J., a Declercq, B. (2013) *A process-oriented monitoring system for the early years.* Leuven: CEGO Pubishers.

Learning journals (dim dyddiad) *What Is the Leuven Scale and How to Use It*. Ar gael o: https://learningjournals.co.uk/what-is-the-leuven-scale-and-how-to-use-it/ (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

Lewis, K. (2020) *Ferre Laevers emotional well being and involvement scales*. Ar gael o: https://www.earlylearninghq.org.uk/earlylearninghq-blog/the-leuven-well-being-and-involvement-scales/ (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

Llywodraeth Cymru (2014) *Flying Start – Annex, Quality Childcare Guidance.* Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-childcare-guidance.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Llywodraeth Cymru (2015) *What really worls for the early years?* Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/what-really-works-for-the-early-years.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

MacRae, C. a Jones, L. (2023) 'A philosophical reflection on the "Leuven Scale" and young children's expressions of involvement', *International Journal of Qualitative Studies in Education*, 36(2), tt. 234-246. DOI:10.1080.

Maldonado-Carreno, C. *et al.* (2022) 'Measuring the quality of early childhood education: Associations with children's development from a national study with the IMCEIC tool in Colombia', *Child Development,* 93(1), tt.1-305. DOI: 10.1111.

Mathers, S. a Singler, R. a Karemaker, A. (2012) *Improving quality in the early years: A comparison of perspectives and measures.* Ar gael o: file:///C:/Users/DSG/Downloads/Early-Years-Quality-Mathers-et-al-Final-Report-2012.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Melhuish, E. a Gardiner, J. (2017) *Study of Early Education and Development (SEED): Study of Quality of Early Years Provision in England (Revised).* Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/723736/Study_of_quality_of_early_years_provision_in_England.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Moss, P. (2016) 'Early Years PISA testing', *Early Years Educator*, 18(6), tt. 14–16. DOI: 10.12968.

Neitzel, J. *et al.* (2019) 'A comparative analysis of the Early Childhood Environment Rating Scale–Revised and Early Childhood Environment Rating Scale, Third Edition', *Journal of Early Childhood Research,* 17(4), tt.408-422. DOI: 10.1177.

NH Connections (2023) *Environment Rating Scales.* Ar gael o: https://www.nh-connections.org/environment-rating-scales/ (Dallenwyd: 31 Mawrth 2023).

Northumberland City Council (2017) *The Leuven Well-being and Involvement Scales*. Ar gael o: http://www.northumberlandeducation.co.uk/wp-content/uploads/2019/04/Well-Being-and-Involvement-Scales.pdf (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

Nutbrown, C. (2012) *Foundations for Quality. The Independent Review of Erly Education and Childcare Qualifications. Final Report.* Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/175463/Nutbrown-Review.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

OECD (2018a) *Structural characteristics and process quality in early childhood education and care: A literature review*. Ar gael o: https://one.oecd.org/document/EDU/WKP(2018)12/En/pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

OECD (2018b) *Process quality in early childhood education and care settings for children under age 3*. Ar gael o: https://www.oecd-ilibrary.org/sites/10e600d0-en/index.html?itemId=/content/component/10e600d0-en (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Pacey (dim dyddiad) *What quality looks like.* Ar gael o: https://www.pacey.org.uk/parents/what-quality-looks-like/ (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Pakeys (dim dyddiad) *Early Childhood Environment Rating Scale (ECERS-R).* Ar gael o: https://static.pdesas.org/content/documents/Early%20Childhood%20Environment%20Rating%20Scale%20(ECERS-R).pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Pascal, C. a Bertram, T. (2018) 'Effective early learning: A paraxelogical and participatory approach to evaluating and improving quality in early childhood education', *Revista da FAEEBA,* 27(51), tt. 105-120. DOI:10.21879.

Peterson, G. a Elam, E. (2021) *Process Quality and Structural Quality*. Ar gael o: https://socialsci.libretexts.org/Bookshelves/Early_Childhood_Education/Book%3A_Observation_and_Assessment_in_Early_Childhood_Education_(Peterson_and_Elam)/02%3A_Quality_Counts/2.04%3A_Process_Quality_and_Structural_Quality (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Robb, S. (dim dyddiad) *Delivering Quality Provision in the Early Years*. Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/delivering-quality-provision-in-the-early-years (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Sammos, P. *et al*. (2017) 'Establishing the Effects of Quality in Early Childhood: Comparing Evidence from England', *Early Education: The British Association for Early Childhood Education.*

Siraj-Blatchford, I. *et al.* (2002) *Researching Effective Pedagogy in the Early Years*. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/4650/1/RR356.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Structural Learning (dim dyddiad) *Leuven Scale: A Teachers Guide.* Ar gael o: https://www.structural-learning.com/post/leuven-scale-a-teachers-guide (Darllenwyd: 1 Ebrill 2023).

Sylva, K. *et al*. (2003) *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project : Findings from the Pre-school Period.* Ar gael o: file:///C:/Users/DSG/Downloads/The%20Effective%20Provision%20of%20Pre-School%20Education%20(EPPE)%20Project%20-%20summary%20of%20findings.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Sylva, K. *et al*. (2004a) *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Final Report. Ar* gael o: https://discovery.ucl.ac.uk/id/eprint/10005309/1/sylva2004EPPEfinal.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Sylva. K. *et al.* (2004b) *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Findings from Pre-school to end of Key Stage1.* Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/18189/2/SSU-SF-2004-01.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Tayler, C. (2015) *Learning in Early Childhood: experiences, relationships and 'Learning to Be'.* Ar gael o: file:///C:/Users/DSG/Downloads/Tayler,%20Learning%20in%20early%20childhood.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).

Woods, A. (2016) *Examining levels of involvement in the early years: Engaging with children's possibilities*. London: Oxon.

Kelly (2016) *The importance of quality Early Years Settings*. Ar gael o: https://www.earlyyearscareers.com/eyc/learning-and-development/the-importance-of-quality-early-years-settings/ (Darllenwyd: 31 Mawrth 2023).